CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 29.07.2010 A GYNHALIWYD YN
NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.00PM

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Rob Phillips, pawb i'r Cyfarfod. Offrymwyd gweddi gan y Cyng. Kistiah Ramaya.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Rob Phillips (Cadeirydd);
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Elsie Dafis;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Kistiah Ramaya; Selwyn Walters;
Chris Thomas; Dorothy Williams; Derek Wilson.
Gohebydd y Wasg y Cambrian News Hannah Smith
Gohebydd y Wasg sy'n gweithio ar liwt ei hun Mr Carl Stringer
Mr John Morgan, *Cymdeithas Mynyddoedd Cambria.*

YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tref Andrew Carter, John Davies & Margaret Davies-Evans.

2. CYFLWYNIAD

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr John Morgan o *Gymdeithas Mynyddoedd Cambria*, a sefydlwyd ym 2005. Prif amcan y Gymdeithas yw codi ymwybyddiaeth o'r ran o Gymru sy'n ymestyn o Bumlumon yn y Gogledd i Fynydd Mallaen yn y de. Mae'n ymrwymo i geisio statws Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol (Area of Outstanding Natural Beauty) ar gyfer yr ardal hon. Diffinir ardal tebyg fel tirlun gwerthfawr, sydd â nodweddion unigryw a harddwch naturiol mor eithriadol, y mae o fudd i'r genedl i geisio ei hamddiffyn. Yn ôl Mr Morgan, yn ogystal â sicrhau treftadaeth y tirlun, byddai satws o'r fath yn denu ymwelwyr ac o fudd economaidd a chymdeithasol i'r ardal. Methiant bu'r ymgais cynt i'r Cynulliad Cenedlaethol am y statws ond disgwylir cyflwyno cais am yr eildro yn ystod y dyfodol agos. Adroddwyd nad oedd prosiectau yn ymwneud a melinau-gwynt yn cydfynd ag ethos y grwp. Roedd aelodau o blaid syniadau Mr Morgan, a chytunwyd i ysgrifennu llythyr pan oedd yr amser yn briodol.

Ymadawodd Mr Morgan â'r Cyfarfod.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

3.1 Bu i'r Gyng. D.Williams ddatgan buddiant personol pan yn trafod y cais cynllunio "Datblygiad Preswyl – adeiladu o bosibl 28 o gartrefi i gynnwys 12 o dai fforddiadwy, tir gyferbyn â Brongest, Heol Llanfair, Llanber PS".

3.2 Bu i'r Cyng. S. Walters ddatgan fuddiant personol pan yn trafod y cais ariannol gan Gymdeithas y Brownies, Llambed.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed – y mae wedi ei chyflwyno eisoes yn y dref. Croesawodd y Maer y datblygiad positif a diolchodd i bawb a gyfrannodd at wireddu'r cynllun.

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 26ain o Fehefin 2010

Cynigwyd (Cyng. Greg Evans), eiliwyd (Cyng. C Barton) a phenderfynwyd bod cofnodion mis Mehefin yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Cyngor Sir i drafod materion o gonsyrn gan aelodau'r Cyngor Tref 7.06.2010**:** Dosbarthwyd y cofnod ysgrifenedig ymysg aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd y cynnwys.
Penderfynwyd sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Rheoli Traffig.

6.2 Gwelliannau ar gyfer Sgwâr Harford
Derbyniwyd y prisiau unigol ar gyfer tasgau – cyfanswm £10,250 a bydd y CSC yn cwrdd â £3,000 o'r gost (oddeutu 30%). Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir petai'n bosibl i'r Cyngor Tref i geisio amcanbrisiau ei hun ar gyfer y gwaith mewn ymgais i arbed arian ac os caniateir hyn, i ofyn petai'r 30% cymhorthdal yn dal i fod mewn lle. Cytunwyd i gyfarfod ar y Sgwâr i asesu'r gwelliannau angenrheidiol.
Ystyriwyd y posibilrwydd o ysgwyddo cyfrifoldebau pellach o'r Cyngor Sir. Awgrymodd y Cyng. Greg Evans tybed a fyddai'n bosibl i gyflogi gweithiwr achlysurol i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw nawr ac yn y man. Ar hyn o bryd y mae cyfrifoldeb y Cyngor Tref yn cynnwys Ardal Chwarae Parc-yr-Orsedd, Cae Maes-y-Deri ac eitemau megis hysbysfwrdd y dref.

6.3 Arwydd Clos Glyndŵr: dylid arddangos yr arwydd yn ystod y dyfodol agos.

6.4 Ombwdsmon: Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau lleol yng Nghymru: Canllawiau gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y mae'r Gyng Barton wedi darllen y ddogfen a gofynnodd am eglurhâd pellach parthed datgan diddordeb personol a sy'n rhagfarnu. Ceisiwyd gwybodaeth pellach gan yr Ombwdsmon Cymru ond dywedwyd nad oedd yr Ombwdson Cymru'n gorff ymgynghorol. Fel canlyniad, cysylltwyd ag Un Llais Cymru. *Disgwylir ateb ganddynt.*

6.5 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref: I beintio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos. Penderfynwyd peidio â pharhau â'r trefniant parhaol o arddangos posteri cyffredinol yn dangos manylion cyswllt AS ac AC Ceredigion. Caniateir posteri'n cynghori ar amserau a dyddiadau cymorthfeydd. Hefyd penderfynwyd mai ond posteri'n ymwneud â Ward Llambed a chaniateir.

6.6 Trwsio'r fainc tu allan i 12 Bryn-yr-Eglwys: gwaredwyd â'r fainc gan Dai Ceredigion Cyf. Disgwylir ateb gan y Cyngor Sir parthed adleoli un o'r meinciau sydd wedi ei lleoli wrth gefn yr hen ysgol gynradd i'r gwagle sydd wedi codi'n awr ger 12 Bryn-yr-Eglwys.

6.7 Amser Cychwyn Cyfarfodydd: penderfynwyd mai 7.30pm fydd amser cychwyn *holl* gyfarfodydd y cyngor tref yn ystod y dyfodol. Roedd rhai aelodau o'r farn bod yr agenda'n ry hir ac ni ddylid fabwysiadu is-benawdau i ee Materion yn Codi.

6.8 Cysgodfannu Bws: penderfynwyd sefydlu Cytundeb Glanhau Cysgodfannau Bws. Disgwylir eu glanhau bob deufis. *I gysylltu â Mr Mark Jenkins, Llanllwni i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddo ymgymryd â'r gwaith.*

6.9 Cais am eglurhâd parthed hen ffotograff yn ymwneud â Chyngor y Dref yn dwyn y teitl "Dirprwyaeth o Gyngor Tref Llambed yn cyfarfod â Chadridog Brigadier Fryer". Ymholiadau'n mynd yn eu blaen gan y Cyng. Walters a Mr Noel Davies. Penderfynwyd i beidio â chynnwys yr eitem hon ar agenda'r dyfodol.

6.10 Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref: Un Llais Cymru: ni ddatganwyd diddordeb mewn mynychu'r rhaglenni hyfforddiant.

6.11 Dolen ar gyfer y safle ar y we – hanes y dref – gwaith yn mynd yn ei flaen – Cyng Walters.

6.12 Dysgl loeren sy'n cael ei harddangos ar y Stryd Fawr: dim datblygiadau ynglŷn â'r mater – holodd y Gyng Dafis yn ystod y cyfarfod blaenorol, tybed a oedd hawl i'r ymarfer hwn, mewn Ardal Gadwraeth.

6.13 Gât – ardal chwarae Maesyfelin – mae'r broblem wedi ei datrys gan Dai Ceredigion.

6.14 Atgofiwyd aelodau o'r Cinio'r Trydydd Byd i'w gydlynu gan y Cyngor Tref ar Ddydd Gwener 6 Awst 2010.

7. GOHEBIAETH

7.1 Adolygu'r Polisi trwyddedu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus CSC: er gwybodaeth.

7.2 Pwyllgor Ardal Ceredigion, Un Llais Cymru: 14.07.2010: er gwybodaeth.

7.3 Gofal a Thrwsio Ceredigion: cais i wneud anerchiad ar gyfer y Cyngor Tref – i'w gwahodd i gyfarfod y dyfodol.

7.4 Digwyddiadau Ceredigion 2010: llythyr gan y Cyng. Keith Evans, Arweinydd y Cyngor Sir yn diolch i'r Cyngor Tref am yr ymdrechion a wnaed gan y Cyngor Tref i addurno'r ardal mewn cysyltiad ag Eisteddfod yr Urdd a Sioe'r Cardis eleni ac i gyfrannu at y croeso a roddwyd i'r ymwelwyr i'r Sir.
I anfon copi o'r llythyr at y Siambr Fasnach, Llambed.

7.5 Llythyr gan Glerc Trawscoed yn mynegi pryder parthed materion cyfathrebu rhwng yr Awdurdod Undebol Lleol a chynghorau thref a chymuned Byddai'n cael ei gyfleu bod y cyngor tref wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y cyngor sir eisoes i drafod materion o gonsyrn. Bu i'r Cyngor Tref ddysgu llawer o'r drafodaeth a gobeithir hefyd bod y cyngor sir wedi elwa. Y mae'r Cyngor Tref wedi cau pen y mwdwl ynglŷn â'r mater. Nid oedd y Cyng G. Evans yn hapus â'r penderfyniad. Y mae'r Cyngor Tref wedi symud ymlaen i ganolbwyntio ar wasanaethu'r gymuned.

7.6 Gohebiaeth parthed y safle ar y we'r Cyngor Tref: y mae ceisiadau am wybodaeth yn cael eu derbyn yn reolaidd gan y Clerc ee

7.6.1 Cais gan Lyfrgell y Dref am Gyfeirydd Ymwelwyr Llanbedr PS: ymholiadau'n mynd yn eu blaen.

7.6.2 Ebost oddi wrth Rheolwr y banc HSBC yn cyfleu neges gan un o'i gwsmeriaid yn mynegi consyrn parthed presenoldeb pobl o dan ddylanwad y ddiod feddwol ger ei fanc.

7.6.3 Cais i ddarganfod poblogaeth y dref.
Dywedodd y Maer y gallai'r Cyngor Tref ystyried llunio Cyfeirydd Ymwelwyr ac i osod y mater ar yr Agenda nesaf.

7.7 Cais gan Elin Davies-Russell, Gweithiwyr Ieuenctid All Gymorth, i fynychu cyfarfod dyfodol y Cyngor Tref – i'w gwahodd i gyfarfod mis Awst.

7.8 Llythyr gan y CSC parthed y cyffordd Heol y Bryn/Heol Cambria- y mae cyfyngiadau parcio yn weithredol. Y mae'r heddlu wedi bod yn wyliadwrus i sicrhau bod y rheolau'n cael eu cadw.

7.9 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MATERION CYNLLUNIO

8.1 Cais Cynllunio gan GSC: Newid defnydd y llawr gwaelod o'i safle diweddaraf fel uned masnachol, Defnydd Dosbarth A1 i le bwyta, defnydd Dosbarth A3. Cais Cynllunio: A100491. Lleoliad: llawr gwaelod, 18 Stryd Fawr, Llambed. Dyddiad a dderbyniwyd gan y CT 20.07.2010. **Sylwadau'r CT: Dim gwrthywnebiad – y mae'r cyngor tref yn mabwysiadu agwedd hyblyg ac os bydd angen cefnogi unrhyw newidiadau yn ystod y dyfodol byddant yn barod i wneud hyn.**

8.2 Cais Cynllunio gan GSC: newid defnydd o B1/B2 (Busnes a Diwydiant Cyffredinol) i D2 (Cydosiad & Hamdden) Cais Cynllunio: A100468. **Lleoliad: 22 Parc Busnes Llambed. Dyddiad a dderbyniwyd gan y Cyngor Tref 19.07.2010. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.**

8.3 Cais Cynllunio gan GSC: Datblygiad preswyl: posibilrwydd o ddatblygu 28 o dai i gynnwys 12 tŷ fforddiadwy, tir gyferbyn â Brongest, Heol Llanfair, Llambed. Y mae'r tir wedi ei gynnwys yng nghynlluniau datblygiad unedol y cyngor sir fel tir sy'n addas ar gyfer adeiladu. **Sylwadau'r CT: Dim gwrthwynebiad ond gofynnodd rai cynghorwyr os oedd angen 28 o dai**

yn y dref ac efallai nad yw'r safle'n ddigon o ran maint, ar gyfer y datblygiad.

8.4 Caniatâd Cynllunio: Cynnig: Amrywio amod A070834 i roi estyniad ar gyfer cyflwyno materion wrth gefn. Plot ger Pennat, Ffordd Glynhebog, Llambed. Ymgeisydd: Mr P. Evans.

8.5 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 9.06.2010 ac Agenda y cyfarfod 14.07.2010: er gwybodaeth.

9. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans bod Transition Llambed yn ail drafod y les ar gyfer Neuadd Fictoria ar ôl darganfod bod y neuadd wedi ymsuddo mewn mannau.

10. CYLLID

10.1 Cais am gymorth ariannol gan Shelter Cymru. Cytunwyd i gyfrannu £25.00.

10.2 Cais am gymorth ariannol gan aelod o'r Brownies, Llambed i awain grŵp o'r Geidiau Llambed mewn gwersyll canmlwyddiant arbennig. Cytunwyd i gyfrannu £50.00.

10.3 Llythyr o ddiolch gan yr NSPCC am y rhodd ariannol diweddar o £25.00.

10.4 Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys: Archwiliad Blynyddol 2009-10: er gwybodaeth.

10.5 Bydd Mr Dave Smith yn archwilio'r cyfrifon y Cyngor Tref yn ystod mis Awsr 2010.

10.6 Cyfraniadau ar gyfer Elusennau o dan Adran 137(3) Deddf Llywodraeth Leol; £6.15 ar gyfer pob etholwr (uchafswm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10). Yng nghofnodion y Cyngor Tref o'r 25ain Ebrill 2002 y mae'n ysgrifenedig, "Cytunwyd ar y canlynol fel esiampl: Mudiadau Cenedlaethol heb swyddfa/gwaith lleol £25.00; Mudiadau â swyddfeydd/gwaith lleol wedi ei brofi yn y dref £50.00, Digwyddiadau â chefnogaeth y dref/cymunedau gwledig £100; Digwyddiadau â phroffil uchel yn y dref £350. Penderfyniad: *i gadw at y drefn.*

10.7 Cyflog y Clerc Gorffennaf 2010 Net: £547.77 Treth & YC £84.50

10.8 Gwres/Trydan/Storio Gorffennaf 2010 £20.00

10.9 Hirio Neuadd San Pedr 29.07. 2010 (3.5 awr) £26.25

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 <u>Goleuadau Stryd</u>

(Cyng J.Davies; D.Williams; M Davies-Evans; G. Evans)

Y mae un golau stryd ar y rhiw sy'n arwain o Neuadd Fictoria i Stâd Bryn-yr-Eglwys ynghyn trwy'r dydd. Y mae'r Gyng. D.Williams wedi adrodd y nam eisoes at sylw'r CSC.

11.2 <u>Palmantau</u>

(Cyng C.Thomas; L.Mason-George; E.Dafis; Y Maer R.Phillips)

11.2.1 Darn o dir sydd angen sylw gerbron Gwesty'r Llew Du, Llambed. Dywedwyd mai nid Mr Gareth Jones yw perchennog y darn o dir er iddo gynnal y clwt pan oedd ei garej e'n gweithredu o'r fan yma. Roedd Rheolwr y Llew Du o'r farn hefyd mai nid eiddo'r Llew Du oedd y tir. Cytunodd i archwilio'r gweithredoedd. *Yn disgwyl y canlyniad.* Penderfynwyd i beidio â chlustnodi sylw pellach i'r mater.

11.2.2 Llythyr oddi wrth Mrs Rita West parthed cwrbyn disgynedig, Heol y Bont: roedd aelodau'n flin i glywed bod Mrs West wedi syrthio ar

balmant ger y Feddygfa, Llambed. Cyfeiriwyd y llythyr at sylw'r Cyngor Sir. Y mae gofynion statudol parthed uchder cwrbynnau disgynedig yn newid yn gyson a mae'r Cyngor Sir yn ymroi i gwrdd â'r gofynion hyn drwy'r sir, cyn gynted â phosibl. Y mae archwiliad cychwynnol o gwrbynnau disgynedig yng nghyffiniau ble ddioddefodd Mrs West ei anffawd, wedi ei ymgymryd gan y cyngor sir.

11.3 <u>Llwybrau Cerdded + Parc-yr-Orsedd</u>
(Cyng A. Carter, H.Harris, S.Walters, C.Barton)

11.3.1 Y mae gwaith yn mynd yn ei flaen gan Mr E Williams. Bydd angen derbyniadau ar gyfer y gwaith sydd wedi ei gwblhau erbyn y 3ydd o Fedi 2010 i dderbyn cymhorthdal o 75%.

11.3.2 Parc-yr-Orsedd:

11.3.2.1Mae'r offer cadw'n heini wedi eu trwsio gan y Cyflenwyr.

11.3.2.2Masg ar gyfer y gât: Mynedfa Heol y Gogledd: i atgofio Mr Alec Page o'r cais.

11.3.2.3Atgyweirio'r gât ar fynedfa Bryn-yr-Eglwys a dod o hyd i amnewidiad i'r asyn pren: *ymholiadau'n mynd yn eu blaen.*

11.3.2.4Archwiliad Meysydd Chwarae yn flynyddol CSC: i dderbyn y cynnig eleni, eto.

11.3.2.5 Cwrs Hyfforddi Archwilio Meysydd Chwarae Gweithredol: enwebwyd y Cyng. Chris Thomas i fynychu'r hyfforddiant.

11.3.2.6Y mae angen ail-glymu bin i'r llawr a hefyd cloriau newydd ar gyfer y biniau.

11.4 <u>Camerau TCC</u>
(Cyng H.Harris, Maer R.Phillips, K.Ramaya)

11.4.1 Adroddiad Misol Mehefin 2010: Bu yna 2 gais gan yr Heddlu am Ddisgiau Copi mewn cysylltiad ag ysgarmes (15.06.2010) a Chadw Trefn Cyhoeddus (14.06.2010)

11.5 <u>Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi</u>
(Y Maer Cyng R.Phillips, C.Thomas; D.Wilson; C.Barton; G.Evans; S. Walters; Cyng. Sirol H.Harris; i.Williams; Lizzie James, Sue Davies; Maureen Williams; Eleri Thomas (Clerc).
Cofnodion ynghlwm o'r cyfarfod o'r 21ain o Orffennaf.

Ymadawodd y Gyng. Barton â'r Cyfarfod cyn ei derfyn.

12. U.F.A.

12.1 Y Maer i gydnabod ymddeoliad diweddar Mr & Mrs Huw Jenkins o'u swyddi unigol fel Pennaeth a Phennaeth yr Adran Fabanod, ar ôl cyfnod hir o wasanaeth.
I ddymuno'n dda iddynt yn ystod eu hymddeoliad.

12.2 Dywedodd y Cyng. Walters bod angen adleoli nifer o gadeiriau sy'n eiddo'r Cyngor Tref o'u lleoliad presennol yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Llambed.

12.3 I wahodd Mr Michael Freeman, Ceidwad Amgueddfa Ceredigion i gyfarfod dyfodol y Cyngor Tref i drafod materion hanesyddol.

12.4 Adroddwyd bod problemau traffig yn bodoli ar Heol y Porthmyn. .

12.5 Gwnaeth y Cyng. Harris ymholiadau ynglŷn ag adnoddau TG y Cyngor Tref. Cytunwyd i lunio polisi TG i dderbyn ystyriaeth yn ystod y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cyfarfod ddirwyn i ben am 10.30pm.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Nos lau 26ain o Awst 2010 am 7.30pm, Neuadd Eglwys San Pedr.

----------(Arwyddwyd/Dyddiad)